



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gyfun Gŵyr
Talbot Street
Tregwyr
Abertawe
SA4 3DB**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2015

Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Gyfun Gŵyr ar gyfer disgyblion 11-19 oed. Mae wedi ei lleoli yn Nhref-gŵyr ac yn gwasanaethu gorllewin Abertawe. Mae 818 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 159 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth. Mae'r ffigyrau hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol yn y niferoedd disgyblion ers yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2011.

Mae 7.3% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl, sydd yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol ac yn parhau â'r patrwm o ostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae 15% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.1%. Mae gan 2% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd hefyd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan yr ysgol uned arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol cyffredinol.

Daw traean o'r disgyblion o gartrefi lle mai'r Gymraeg yw iaith yr aelwyd. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae nifer fach iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod lleol.

Er 2006, mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth ag Ysgol Gyfun Bryn Tawe i ehangu llwybrau dysgu 14-19 cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau lleol er mwyn darparu dewisiadau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 2002. Mae tîm rheoli uwch yr ysgol yn cynnwys y pennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Gŵyr yn 2014 – 2015 yw £4,388. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Abertawe yw £6,408 a'r lleiafswm yw £4,024. Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn y 10fed safle o'r 14 ysgol uwchradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- deilliannau disgyblion yn y prif ddangosyddion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn aml wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf;
- cyflawniadau grwpiau o ddisgyblion yn dangos cynnydd sylweddol erbyn diwedd cyfnod allweddol 4;
- bron pob disgybl yn cyfranogi'n llawn a gweithio yn gynhyrchiol yn y gwersi, ac yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn nodau'r gwersi;
- safonau ymddygiad disgyblion yn uchel;
- cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf;
- y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn gryfder arwyddocaol; a bod
- yr ysgol yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi llwyddo i gynnal y deilliannau uchel dros y blynyddoedd diwethaf;
- corff llywodraethol yr ysgol yn gweithredu'n effeithiol o ran cyfrannu at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol;
- systemau trylwyr yn sicrhau atebolrwydd cryf ymhlith rheolwyr canol yr ysgol a chysondeb yn ansawdd yr arweinyddiaeth;
- prosesau gwella ansawdd yn gyfansawdd ac yn arwain at bennu blaenoriaethau gwella sy'n canolbwyntio ar safonau, addysgu a datblygu arweinyddiaeth;
- yr ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaid ar gyfer ehangu profiadau dysgu disgyblion a sicrhau cost effeithiolrwydd; a bod
- y modd y mae'r ysgol yn datblygu arbenigedd drwy gymunedau dysgu yn gryfder arwyddocaol.

Argymhellion

- A1 Lledaenu arfer orau mewn agweddau ar addysgu ac asesu
- A2 Sicrhau bod gwybodaeth yn deillio o arsylwadau dosbarth a chraffu ar lyfrau yn arwain at bennu targedau gwella mewn cynlluniau datblygu adrannol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Rhagorol

Safonau: Rhagorol

Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n ennill pum gradd TGAU A* - C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hon yn nodwedd ragorol. Bu patrwm tebyg yng nghyflawniadau'r disgyblion yn ennill graddau A* - C mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yn y prif ddangosyddion eraill yng nghyfnod allweddol 4 wedi gosod yr ysgol naill ai yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch. Roedd perfformiad yn y dangosydd pum gradd TGAU A* i C mewn ystod eang o gymwysterau, yn gosod yr ysgol, yn y 25% uchaf yn 2011 yn y 25% uchaf ac yn y 50% uwch yn y tair blynedd ddilynol.

Mae perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yng nghyfnod allweddol 3 wedi bod o gwmpas cyfartaleddau'r teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn agos i'r disgwyliau. O gymharu perfformiad yr ysgol â pherfformiad ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i dderbyn cinio am ddim, roedd yr ysgol yn y 25% isaf yn y dangosydd hwn yn 2013 a 2014, ac yn y 50% is yn y ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf yn rhan fwyaf y dangosyddion dros y tair blynedd ddiwethaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau'r merched ar lefel 6 neu uwch yn llawer uwch na chyflawniadau'r bechgyn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, mae cyflawniadau grwpiau o ddisgyblion yn y prif ddangosyddion yn dangos cynnydd sylweddol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Mae cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol di-dâl, yn enwedig, yn y dangosydd pum gradd A* - C neu fwy yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, yn nodwedd ragorol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol ac yn llwyddo'n dda i ennill cymwysterau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Yn y chweched dosbarth, mae'r sgôr bwyntiau gyfartalog wedi bod yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae 100% o'r disgyblion wedi ennill graddau A* - E mewn dau neu fwy o bynciau, mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf, sydd yn arwyddocaol uwch na ffigyrau Cymru.

Yn y gwersi, mae lefelau cymhellant y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gyson yn uchel, ac maent yn meddu ar aeddfedrwydd fel dysgwyr. Mae hyn yn gryfder arwyddocaol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn nodau'r gwersi.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn dangos parodrwydd i gynnig sylwadau yn llafar i gwestiynau'r athrawon. Mae rhan fwyaf y disgyblion hefyd yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i gynnig ymatebion mwy estynedig, gan

ddangos gafael gadarn ar eirfa bwnc benodol. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd clir, ac yn dangos aeddfedrwydd cynyddol. Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu gallu i esbonio ac rhesymu wrth drafod materion mwy cymhleth.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael gadarn ar fedrau darllen i ymdopi â gofynion darllen deunyddiau amrywiol yn y gwersi. Yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i hyrwyddo eu dealltwriaeth o destunau a chysyniadau pynciol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno yn effeithiol ar gyfer ystod o bwrpasau. Mae disgyblion hefyd yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu gallu i ddefnyddio technegau sy'n eu galluogi i ddadansoddi, cymharu a chrynhoi testunau. Mae'r medrau hyn yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'w cynnydd academaidd a'u cyflawniadau erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg, a'u gallu i ysgrifennu mewn ystod o gyd-destunau yn eu gwaith ar draws y pynciau. Nodwedd gyson o'r gwaith ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm yw gafael gadarn llawer o'r disgyblion ar eirfa bwrpasol a therminoleg bynciol. Mewn ychydig o bynciau, nid yw disgyblion yn gwneud defnydd llawn o'r medrau ysgrifennu sydd ganddynt yn gyson i ddatblygu eu dealltwriaeth yn llawn drwy gynhyrchu gwaith mwy estynedig. Ar brydiau, mae disgyblion o allu is yn dibynnu'n ormodol ar dasgau strwythuredig wrth ysgrifennu. Mae hyn yn amharu ar eu cynnydd yn defnyddio eu medrau ysgrifennu yn llawn.

Mae'r llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau rhifedd mewn gwersi. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r pedair rheol rhif, ac yn medru cymharu a defnyddio degolion, ffracsiynau a chanrannau mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Mae'r mwyafrif yn hyderus yn ateb cwestiynau yn y dosbarth ac yn egluro eu datrysiadau yn glir. Maent hefyd yn dadansoddi data yn gywir mewn cyd-destunau amrywiol ar draws y cwricwlwm, yn sylwi ar batrymau a tueddiadau yn y data, ac yn llunio graffiau addas i arddangos y canlyniadau.

Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o Gymreictod ac maent yn meddu ar agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. Mae llawer yn gwneud defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol o gwmpas yr ysgol.

Lles: Rhagorol

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hynod ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw achosion o gamymddwyn neu ymddygiad gormesol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn ymwybodol o egwyddorion bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfran uchel o ddisgyblion yn cyfranogi mewn llu o weithgareddau sydd yn hybu ffitrwydd a lles, er enghraifft gweithgareddau cynllun 5x60 ac amrywiaeth eang o weithgareddau chwaraeon eraill. Nodwedd gref hefyd yw'r niferoedd uchel o ddisgyblion sydd yn manteisio ar y cyfleoedd niferus i gyfranogi mewn amryw o weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol.

Mae safonau ymddygiad disgyblion yn gyson yn uchel. Mae bron pob un yn uniaethu yn dda â'i gilydd, gan ddangos parch a chwarteisi at ei gilydd ac at oedolion yng nghymuned yr ysgol. Yn y gwersi, maent yn arddangos agweddau aeddfed at ddysgu ac yn dyfalbarhau i weithio'n gynhyrchiol. Mae lefelau cyfranogiad disgyblion a'u haeddfedrwydd fel dysgwyr yn gryfder arwyddocaol.

Dros gyfnod o chwe blynedd, mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn casglu safbwyntiau eu cyd-ddisgyblion yn effeithiol a gwneud penderfyniadau ar agweddau amrywiol yn ymwneud â materion addysgol, amgylcheddol ac iechyd yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd disgyblion. Yn sgil mentrau fel y cynllun 'mentora cyfoedion a bydi', mae disgyblion hŷn yr ysgol yn meithrin medrau rhyngbersonol gwerthfawr a gofal am eraill yn llwyddiannus iawn. Drwy gymryd rhan yn y gweithgareddau elusennol rheolaidd, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu empathi a thosturi tuag at bobl sy'n wynebu heriau anodd bywyd.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn bodloni gofynion statudol. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn cynnig arlwy eang o opsiynau, sy'n cynnwys ystod o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol, ac yn bodloni dymuniadau'r disgyblion ac yn diwallu anghenion cyflogwyr lleol yn dda. Yn sgil y cysylltiadau â chyflogwyr a darparwyr addysg ôl-16, mae darpariaeth eang gan yr ysgol ar gyfer addysg gysylltiedig â gwaith. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig arlwy helaeth ac ysgogol o weithgareddau i'r disgyblion yn ystod oriau ysgol a thu hwnt, sy'n cynnwys clybiau chwaraeon a diddordebau cyffredinol, ynghyd â sesiynau dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y profiadau dysgu wrth i'r disgyblion drosglwyddo i'r sector uwchradd. Er enghraifft, mae strategaeth ar waith ar gyfer cyd gynllunio ym meysydd rhifedd a llythrennedd, ynghyd â darparu gwersi Ffrangeg yn yr ysgolion cynradd i Flwyddyn 6. Mae cysylltiadau cwricwlaidd cryf rhwng adrannau iaith, mathemateg a gwyddoniaeth a'r ysgolion cynradd.

Mae'r modd y mae'r ysgol yn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn nodwedd ragorol. Drwy gynllunio bwriadus, darparu adnoddau o'r safon uchaf a threfniadau rheoli ansawdd cynhwysfawr, mae cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddatblygu'r medrau a'u defnyddio ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Darpara'r ysgol hefyd wersi rhifedd a llythrennedd defnyddiol i'r disgyblion ar gyfer meistrolï'r medrau hyn.

Mae strategaeth yr ysgol ar gyfer y medrau hefyd yn cynnwys cymorth ac arweiniad manwl i staff gan y cydgysylltwyr, ynghyd â threfniadau i fesur effaith ar ansawdd y profiadau ar draws y cwricwlwm. Drwy ystod o ymyraethau addas, mae'r ysgol yn darparu cynhaliadau ychwanegol helaeth i'r disgyblion â medrau gwan, ynghyd â darparu profiadau ychwanegol gwerthfawr sy'n ymestyn y disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae gan yr ysgol fentrau penodol sy'n cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o hunaniaeth Gymreig ac yn hyrwyddo yn llwyddiannus agweddau cadarnhaol at ddefnyddio'r Gymraeg. Enghreifftiau o hyn yw gweithgarwch y grŵp hyrwyddo'r Gymraeg 'GYTS' a chystadleuaeth tarian Gymreictod Blwyddyn 7.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang. Bu disgyblion y chweched dosbarth yn cyfranogi mewn prosiect ar ddwyieithrwydd gyda myfyrwyr ieitheg Prifysgol Nigata yn Japan. Mae myfyrwyr tramor sy'n astudio ym Mhrifysgol Abertawe yn ymweld â'r ysgol i rannu eu profiad a'u cefndir diwylliannol a chrefyddol. Mae grŵp 'GECO' y disgyblion yn weithgar ac yn codi ymwybyddiaeth disgyblion yr ysgol o'u gwaith â materion cynladwyedd yn llwyddiannus drwy fentrau fel 'cofio diffodd goleuadau' a 'diwrnodau gwyrdd' yr ysgol.

Addysgu: Da

Mae ansawdd y gydberthynas rhwng athrawon â'r disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. O ganlyniad i hyn, mae athrawon yn llwyddo i greu a chynnal amgylchedd dysgu pwrpasol yn y gwersi, sy'n galluogi disgyblion i wneud cynnydd parhaus.

Yn rhan fwyaf y gwersi, mae athrawon yn rhannu nodau dysgu gyda'r disgyblion ar ddechrau'r gwersi ac yn eu hesbonio yn glir. Maent yn cynllunio dilyniant priodol o weithgareddau dysgu. O ganlyniad i hyn, mae rhediad y gwersi yn briodol ac yn llwyddo i gynnal lefelau cymhelliant disgyblion. Mewn ychydig o'r gwersi, nid yw'r athrawon yn dangos yn ddigon clir i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i gyflawni'n dda. Mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion alw i gof yr hyn y maent wedi ei ddysgu eisoes, gan sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu gwybodaeth flaenorol. Mae llawer o athrawon hefyd yn defnyddio ystod o adnoddau dysgu amrywiol yn effeithiol er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion.

Ym mron pob gwersi, mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o gwestiynau i ennyn ymateb a helpu disgyblion i gynyddu eu dealltwriaeth a gwneud cynnydd. Mewn lleiafrif o wersi, mae holi treiddgar ac anogaeth i ddisgyblion i resymu ac ymhelaethu yn nodwedd gref o'r addysgu. Yn y gwersi hyn, mae athrawon hefyd yn rhoi sylw trylwyr i wella camgymeriadau cyffredin mewn gwaith blaenorol. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw'r gweithgareddau dysgu yn cynnig her briodol i'r disgyblion ar sail gwahanol lefelau o allu.

Yn rhan fwyaf y gwersi, derbynia'r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu cynnydd a'u dealltwriaeth. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn marcio ac asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn gweithredu polisi asesu'r ysgol yn gyson. Mae llawer o athrawon yn darparu sylwadau ysgrifenedig manwl wrth farcio gwaith y disgyblion. Serch hynny, mewn ychydig o achosion, nid yw'r sylwadau yn rhoi digon o arweiniad penodol i'r disgyblion ar sut i fynd ati i wella ansawdd eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn hunanasesu eu gwaith eu hunain yn y gwersi ac ar ddiwedd unedau gwaith, ynghyd ag yn yr adroddiadau pen blwyddyn. Maent hefyd yn asesu gwaith eu cyfoedion yn drylwyr ac yn paratoi sylwadau perthnasol a thargedau addas ar gyfer gwella safon y gwaith. Mae gan yr ysgol system effeithiol i gofnodi cynnydd disgyblion. Mae athrawon a rheolwyr yn defnyddio'r system yn rheolaidd i olrhain cynnydd ac i fynd i'r afael ag unrhyw dangyflawniad yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu adroddiadau manwl i rieni ar gynnydd eu plant, sy'n cynnwys targedau clir ar gyfer gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn y cymorth angenrheidiol i wneud cynnydd a chyfranogi'n llawn yn ei bywyd a gwaith ochr yn ochr â phennu disgwyladau uchel o ran eu cynnydd academiaidd. Mae systemau trylwyr yr ysgol ar gyfer hyrwyddo ymddygiad, presenoldeb a chynnydd academiaidd disgyblion yn rhan greiddiol o'i llwyddiant. Mae effaith y systemau hyn, yn enwedig ar ddeilliannau grwpiau o ddisgyblion ag anghenion penodol, yn nodwedd ragorol sydd wedi cynorthwyo i gynnal deilliannau uchel dros gyfnod.

Mae'r ysgol yn sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fwyta ac yfed yn iach a dulliau iachus o fyw. Mae cyd-gysylltydd iechyd yr ysgol yn cynllunio'n ddychmygus iawn i hyrwyddo gweithgareddau sydd yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a lles emosiynol a meddyliol disgyblion.

Mae'r tîm bugeiliol yr ysgol yn cydweithio'n helaeth gydag amrediad o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion gyda gwybodaeth ac arweiniad arbenigol. Mae'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol gan gynnwys addysg yrfaol, wedi eu cynllunio'n fanwl iawn ar draws pob cyfnod allweddol. Mae'r ysgol hefyd yn ymestyn ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol drwy drefnu siaradwyr gwadd o fusnesau lleol a chyfleoedd profiad gwaith buddiol. Mae profiadau cwricwlaidd a'r cyfleoedd allgyrsiol helaeth, yn ogystal â gwasanaethau boreol a chyfnodau myfyrio, yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu arweiniad a chyingor cynhwysfawr i'r disgyblion wrth iddynt ddewis cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n rheolaidd gydag ystod o asiantaethau allanol ar gyfer darparu cynhaliaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynlluniau addysg unigol manwl, yn ogystal â strategaethau ymyrraeth trwyadl ar gyfer disgyblion â medrau sylfaenol gwan yn sicrhau bod disgyblion ag angen cymorth ychwanegol arnynt yn llwyddo. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd sylweddol yn ennill cymwysterau ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Yn gyffredinol, mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Fe godwyd mater yn ystod yr arolygiad sy'n ymwneud â iechyd a diogelwch. Mae cynlluniau priodol ar waith gan yr ysgol i wella'r sefyllfa.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae ethos arbennig yn perthyn i'r ysgol sy'n adlewyrchu'r arwyddair ysgol 'Gorau byw, cyd-fyw'. Mae'n gymuned hapus, cartrefol a gofalgwr gydag ethos cynhwysol lle caiff pob disgybl gyfleoedd cyfartal i lwyddo. Nodwedd ragorol yw'r modd y mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau ethos o ddisgwyladau uchel, ymddiriedaeth a chefnogaeth ymhlith staff, disgyblion a'r rhieni.

Mae gwerthoedd yr ysgol yn arwain at werthfawrogi a dathlu amrywiaeth yn effeithiol, ac yn treiddio trwy bob agwedd o fywyd yr ysgol. Yn sgil y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gwersi addysg grefyddol, a gwasanaethau ysgol, mae'r ysgol yn meithrin agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion o ran parch ac ymwybyddiaeth o faterion yn gysylltiedig â bwlio, hiliaeth, rhywiaeth, homoffobia a rhagfarn yn erbyn anabled.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu, cyfarpar a chyfleusterau sydd o ansawdd da ac yn hyrwyddo'r dysgu.

Er bod rhannau o'r adeilad yn hen, mae'r ysgol wedi ac yn gweithio'n galed i sicrhau amgylchedd sy'n ddiogel ac yn hygyrch. Mae nifer o arddangosfeydd lliwgar a symbylol ar hyd waliau'r dosbarth a'r coridorau, sy'n cyfoethogi ac yn ysgogi'r dysgu. Mae gwaith cynnal a chadw'r adeilad a'r safle yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad strategol cryf i'r ysgol, sy'n seiliedig ar ysbrydoli pawb i bennu disgwyliadau uchel ac anelu at ragoriaeth. Yn sgil yr arweinyddiaeth hon, mae'r ethos o gydweithio, cefnogi ac ymddiriedaeth yn nodwedd amlwg iawn ar draws yr ysgol a'r holl randdeiliaid. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithiol gan aelodau eraill o'r tîm rheoli uwch. Mae gan y tîm rheoli uwch ddisgwyliadau uchel o'r staff a dealltwriaeth fanwl iawn o'r cryfderau a'r meysydd lle mae lle i'w cryfhau ymhellach. Mae'r cysondeb yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel yn ffactor arwyddocaol yn llwyddiant yr ysgol dros gyfnod o gynnydd sylweddol yn y niferoedd disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae nodau ac amcanion yr ysgol yn glir ac yn canolbwyntio ar sicrhau blaenoriaeth i fodloni anghenion disgyblion, gyda sylw helaeth i flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig o ran gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau a sicrhau safonau uchel. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u cyfraniad uniongyrchol i gyflawni nodau a chynlluniau strategol yr ysgol ac yn rhannu'r weledigaeth yn effeithiol iawn. Mae hyn yn nodwedd gref.

Caiff rolau a chyfrifoldebau'r tîm rheoli uwch a rheolwyr canol eu diffinio'n fanwl ac mae systemau rheolaeth ac atebolrwydd yn gadarn iawn. Mae cyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel yn canolbwyntio'n effeithiol ar nodau strategol yr ysgol ac mae rheolwyr yn cofnodi trafodaethau'r cyfarfodydd yn drwyadl. Mae gan y rheolwyr cyswllt adrannol wybodaeth drylwyr o'u hadrannau cyswllt drwy'r cyfarfodydd hyn. Caiff adrannau eu cynorthwyo a'u monitro yn effeithiol iawn ganddynt, ynghyd â'u herio yn gyson o ran y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni.

Gwna arweinwyr ar bob lefel ddefnydd trylwyr o ddata ar gyfer gosod targedau heriol ar lefel unigolion, grwpiau a blwyddyn ysgol. Mae'r arweinwyr yn olrhain cynnydd yn erbyn y targedau yn fanwl iawn, gan ymateb yn gyflym i unrhyw dangyflawni. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith glir iawn ar godi a chynnal safonau uchel.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau ac maent yn chwarae rhan bwysig yn pennu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol. Trwy strwythur is-bwyllgorau, maent yn cynnig arweiniad gwerthfawr i'r ysgol ar ddatblygiadau strategol amrywiol a pholisïau ysgol gyfan.

Mae cysylltiadau cryf rhwng llywodraethwyr ac arweinwyr uwch ac maent yn chwarae rhan weithredol yn monitro perfformiad. Ar sail yr adroddiadau manwl iawn maent yn eu derbyn gan y pennaeth, mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o ddata perfformiad a safonau'r ysgol. O ganlyniad, mae'r is-bwyllgor cwricwlwm yn dal arweinwyr canol i gyfrif yn effeithiol iawn am berfformiad cyffredinol eu hadrannau. Mae'r corff llywodraethol yn rhan bwysig o'r broses pennu targedau ar gyfer codi safonau ymhellach.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r prosesau gwella ansawdd yn tynnu ar ystod briodol o dystiolaeth, sy'n cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau yn rheolaidd a dadansoddiad cadarn o ddata perfformiad. O ganlyniad, mae gan yr uwch dîm rheoli, a rheolwyr canol, ddarlun cadarn o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn yr ysgol. Maent yn deall eu rolau yn dda ac yn cynnwys holl aelodau'r ysgol yn y broses o sicrhau ansawdd a gwelliant parhaus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer holi barn disgyblion, sy'n cynnwys holiaduron disgyblion ar-lein yn flynyddol a gweithredu dilynol effeithiol ar sail sylwadau'r disgyblion, lle bo'n briodol. Mae athrawon hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o safbwyntiau disgyblion wrth iddynt asesu eu perfformiad ar ddiwedd uned, ac ar gyfer yr adroddiadau ffurfiol. Yn yr un modd, mae'r ysgol yn casglu barn rhieni ar y ddarpariaeth yn rheolaidd. Maent yn defnyddio holiaduron blynyddol a holiaduron nosweithiau rhieni yn effeithiol i gasglu gwybodaeth ar waith yr ysgol, gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol i wneud gwelliannau.

Yn sgil y cymunedau dysgu, mae staff yn cyflawni rôl allweddol yn y broses o wella ansawdd a chodi safonau. Mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer lythrennedd a rhifedd yn effeithiol iawn.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen arfarnol sy'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad yr ysgol ac yn talu sylw penodol i gymariaethau ag ysgolion tebyg a thueddiadau perfformiad dros gyfnod. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys darlun clir a chytbwys o agweddau eraill gan gynnwys safonau, yr addysgu ac asesu, ac arweinyddiaeth. Mae adroddiadau hunan arfarnu adrannau yn gynhwysfawr ar y cyfan, ac yn cysylltu'n dda â hunanarfarnu ysgol gyfan a'r nodau strategol. Serch hynny, nid yw'r adrannau yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth sydd yn deillio o'r arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau ar gyfer nodi blaenoriaethau gwella yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysgu.

Mae cysylltiad amlwg rhwng y broses hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys blaenoriaethau datblygu priodol, gyda ffocws clir ar wella safonau a'r addysgu a datblygu arweinyddiaeth ymhlith y staff. Gwna'r cynllun ddefnydd cyson o dargedau meintiol heriol, ac mae cyfrifoldebau arwain wedi eu nodi'n glir.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod eang o bartneriaethau.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r rhieni yn un gref, gyda'r ysgol yn ceisio eu barn yn rheolaidd ac yn cyfathrebu'n gyson drwy rwydweithiau cymdeithasol. Mae polisi drws agored yr ysgol yn llwyddo i sicrhau lefelau uchel o ymglymiad ac ymddiriedaeth ymysg y rhieni.

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r ysgol wedi cydweithio'n helaeth gydag Ysgol Bryn Tawe mewn perthynas â'r cwricwlwm, gyda chytundeb rhwng y ddau gorff llywodraethol i rannu staff ac adnoddau er mwyn ehangu llwybrau dysgu cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion y ddwy ysgol. Mae'r bartneriaeth chweched dosbarth rhwng y ddwy ysgol wedi arwain at ar gyd-gynllunio amserlen ar y cyd, ynghyd â chydweithio adeg nosweithiau rhannu gwybodaeth a digwyddiadau anwytho. Nodwedd gref o'r bartneriaeth yw'r ymddiriedaeth rhwng y ddwy ysgol yn cyfnewid gwybodaeth yn gysylltiedig â sicrhau ansawdd.

Mae'r ysgol hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda cholegau lleol ar gyfer ehangu'r opsiynau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhaglen 'HE+' yn darparu arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion y chweched dosbarth ar y cyd â Choleg Gŵyr ar gyfer ceisiadau i Brifysgolion Caergrawnt a Rhydychen. Yn sgil y bartneriaeth gyda Phrifysgol Abertawe, mae disgyblion y chweched dosbarth yn elwa o ddarlithiau gan staff y brifysgol, ynghyd â ffug gyfweiliadau.

Mae cydweithio agos a chynhyrchiol iawn gyda'r ysgolion cynradd partner, gyda hyn yn hybu trosglwyddo esmwyth i'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio gydag ysgolion yr awdurdod ar ystod o faterion, yn cynnwys prosiect rhifedd a phrosiect i ymestyn y disgyblion mwyaf abl a thalentog. Nodwedd gref yn deillio o'r cydweithio i leihau effaith tloidi ar safonau addysgol yw'r effaith arwyddocaol ar gyflawniadau academaidd disgyblion prydau ysgol di-dâl.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Cryfder arwyddocaol yn y modd y mae'r ysgol yn rheoli ei hadnodau yw'r modd y mae cymunedau dysgu yn cyfrannu'n sylweddol tuag at rannu arferion da ac yn sicrhau llwyddiant y strategaeth i lythrennedd a rhifedd. Mae hyn yn galluogi staff i ddatblygu eu harbenigedd a rhannu arfer gref o fewn yr ysgol a thu hwnt. Caiff cyfran uchel o staff gyfleoedd i arsylwi cymheiriaid yn yr ystafell ddosbarth, sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu o arferion da mewn pynciau y tu allan i'w harbenigedd. Mae mentrau fel hyn wedi cyfrannu'n arwyddocaol at sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ac at y deilliannau cryf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Yn sgil y cyfarfodydd adolygu perfformiad rheolaidd, mae pob aelod o staff yn cytuno ar ac adolygu eu targedau yn unol â blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol. Mae'r targedau yn canolbwyntio'n benodol ar addysgu a dysgu a chyflawniadau disgyblion. O ganlyniad, mae anghenion datblygu staff yn cael eu nodi'n glir ac yn arwain at raglen datblygiad proffesiynol gynhwysfawr sydd wedi'i thargedu'n benodol.

Adroddiad ar Ysgol Gyfun Gŵyr
Rhagfyr 2014

Mae'r ysgol yn rheoli'r gyllideb yn effeithlon. Mae'r bartneriaeth gydag Ysgol Bryn Tawe ôl-16 yn sicrhau bod darpariaeth y chweched dosbarth yn gost effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd priodol o'r grant amddifadedd i alluogi disgyblion i wneud cynnydd sylweddol yn eu cyflawniadau academaidd.

Cynigia'r ysgol werth rhagorol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd wedi bod o gwmpas cyfartaleddau'r teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf ac yn agos i'r disgwyliadau. Mae'r patrwm hwn yn cael ei adlewyrchu yn fras ar y lefel 5 ddisgwyliedig yn y pynciau yn unigol. Mae cyflawniadau ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 yn dangos cynnydd da ar sail cyflawniadau blaenorol y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

O gymharu perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 â pherfformiad ysgolion tebyg, roedd yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol di-dâl yn 2013 a 2014 yn y dangosydd pynciau craidd, ac yn y 50% is yn y ddwy flynedd flaenorol. Bu perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gan mwyaf yn y 25% isaf neu'r 50% is yn y tair blynedd ddiwethaf.

Mae perfformiad ar lefel 6 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o ysgolion tebyg yn rhan fwyaf y dangosyddion dros y tair blynedd ddiwethaf. Ar lefel 7, bu perfformiad yn gyson yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch mewn Saesneg a Chymraeg. Fodd bynnag, bu perfformiad yn y 50% is mewn dwy o'r pedair blynedd ddiwethaf mewn mathemateg ac yn y 25% is mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y dangosydd pynciau craidd ac yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, wedi gosod yr ysgol yn arwyddocaol uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn uwch na'r disgwyliadau o ystyried lefelau cymhwysedd i dderbyn cinio am ddim. Mae patrwm tebyg o ystyried cynnydd disgyblion ar sail eu cyflawniadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol 2 a 3.

Mae perfformiad yn y trothwy lefel 1, trothwy lefel 2 a'r sgôr bwyntiau wedi ei chapio hefyd o gwmpas neu yn uwch na chyfartaledd y teulu dros gyfnod, ac wedi gosod yr ysgol naill ai yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Cymraeg, gwyddoniaeth a mathemateg ar lefel 2 hefyd wedi gosod yr ysgol bron yn ddieithriad yn y 25% uchaf. Mewn Saesneg, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is, ond yn gyson o gwmpas neu uwchlaw ffigurau cyfartalog y teulu.

Nid adawodd unrhyw ddisgybl oed ysgol gorfodol heb gymhwyster cydnabyddedig dros y pedair blynedd rhwng 2010 a 2013.

Yn y chweched dosbarth, mae'r sgôr bwyntiau gyfartalog wedi bod yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf. Mae 100% o'r disgyblion wedi cyflawni'r trothwy lefel 3 mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf, sydd yn arwyddocaol uwch na ffigurau Cymru.

Ym mron i bob dangosydd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae'r bwloch rhwng cyflawniadau'r merched a'r bechgyn yn llai na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, ar lefel 6 neu uwch yn Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, mae cyflawniadau'r merched yn llawer uwch na chyflawniadau'r bechgyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r cynnydd yng nghyflawniadau disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol di-dâl yn anwastad. Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yn gosod yr ysgol yn naill ai'r 25% isaf neu'r 50% is o ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, bu patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, mae cyflawniadau'r disgyblion hyn yn y dangosydd pynciau craidd ac yn y trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal, mae perfformiad yn y trothwy lefel 1, trothwy 2 a'r sgôr bwyntiau wedi ei chapio wedi bod yn gyson naill ai yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf dros yr un cyfnod. Mewn Cymraeg a mathemateg, mae perfformiad wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod gan mwyaf yn y 25% uchaf, ond mewn Saesneg, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg uwchradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
I feel safe in my school	191	119 62%	69 36%	3 2%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		43%	52%	4%	1%	
The school deals well with any bullying	191	67 35%	113 59%	10 5%	1 1%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		26%	58%	14%	3%	
I have someone to talk to if I am worried	190	122 64%	57 30%	11 6%	0 0%	Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni.
		38%	52%	8%	1%	
The school teaches me how to keep healthy	190	90 47%	84 44%	16 8%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		23%	56%	18%	3%	
There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise	191	141 74%	43 23%	7 4%	0 0%	Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		45%	45%	9%	2%	
I am doing well at school	191	65 34%	118 62%	7 4%	1 1%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		32%	62%	5%	1%	
The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems	191	102 53%	81 42%	8 4%	0 0%	Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau.
		38%	55%	6%	1%	
My homework helps me to understand and improve my work in school	191	59 31%	106 55%	22 12%	4 2%	Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		20%	54%	21%	5%	
I have enough books and equipment, including computers, to do my work	191	108 57%	74 39%	9 5%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		45%	47%	7%	1%	
Pupils behave well and I can get my work done	191	38 20%	120 63%	28 15%	5 3%	Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		10%	57%	27%	6%	

	Number of responses Nifer o ymatebion		Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	
Staff treat all pupils fairly and with respect	191		79 41%	84 44%	23 12%	5 3%	Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt.
			28%	51%	17%	4%	
The school listens to our views and makes changes we suggest	191		35 18%	112 59%	40 21%	4 2%	Mae'r ysgol yn gwrandao ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu.
			16%	54%	25%	5%	
I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility	190		88 46%	96 51%	5 3%	1 1%	Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosaf fy hun a chymryd cyfrifoldeb.
			34%	60%	5%	1%	
The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life	191		90 47%	85 45%	13 7%	3 2%	Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith.
			36%	54%	9%	1%	
The staff respect me and my background	191		97 51%	86 45%	7 4%	1 1%	Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir.
			37%	54%	7%	2%	
The school helps me to understand and respect people from other backgrounds	191		106 55%	80 42%	5 3%	0 0%	Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.
			36%	56%	7%	1%	
Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4	67		34 51%	30 45%	2 3%	1 1%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4.
			28%	51%	16%	5%	
Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form	40		15 38%	19 48%	6 15%	0 0%	Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth.
			27%	50%	16%	6%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	127	87 69%	40 31%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		43%	50%	4%	1%		
My child likes this school.	127	84 66%	42 33%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		46%	48%	4%	1%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	127	80 63%	44 35%	1 1%	1 1%	1	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		50%	45%	3%	1%		
My child is making good progress at school.	126	69 55%	52 41%	3 2%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		45%	48%	4%	1%		
Pupils behave well in school.	127	48 38%	64 50%	3 2%	0 0%	12	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		22%	54%	11%	3%		
Teaching is good.	127	54 43%	67 53%	2 2%	0 0%	4	Mae'r addysgu yn dda.
		33%	57%	5%	1%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	126	77 61%	49 39%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		50%	46%	2%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	126	61 48%	52 41%	6 5%	0 0%	7	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		31%	53%	8%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	126	58 46%	54 43%	7 6%	0 0%	7	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		32%	48%	9%	2%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	127	61 48%	51 40%	8 6%	0 0%	7	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		33%	53%	7%	1%		
My child is safe at school.	126	66 52%	59 47%	1 1%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		41%	52%	3%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	115	51 44%	38 33%	9 8%	0 0%	17	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		32%	46%	7%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	127	57 45%	51 40%	14 11%	1 1%	4	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		33%	50%	11%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	127	73 57%	47 37%	3 2%	0 0%	4	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		41%	48%	7%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	127	51 40%	60 47%	6 5%	1 1%	9	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		27%	50%	10%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	127	59 46%	62 49%	1 1%	1 1%	4	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		36%	53%	5%	1%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	117	47 40%	40 34%	4 3%	0 0%	26	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		26%	46%	8%	2%		
There is a good range of activities including trips or visits.	127	65 51%	47 37%	9 7%	0 0%	6	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		35%	49%	9%	2%		
The school is well run.	126	75 60%	49 39%	1 1%	1 1%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		40%	49%	5%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Iolo Dafydd	Arolygydd Cofnodol
Gwyn Thomas	Arolygydd Tîm
Huw Collins	Arolygydd Tîm
Bethan Whittall	Arolygydd Tîm
Gwen Aubrey	Arolygydd Lleyg
Elise Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Llinos John	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys

	<p>ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---